


# FY NIWRNOD YSGOL

## SENEDD IEUENCTID CYMRU, Y PWYLLGOR ADDYSG A'R CWRICWLWM

Tachwedd 2023

WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU

***Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.***

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Ieuenctid Cymru:
**www. seneddieuenctid.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# FY NIWRNOD YSGOL

## SENEDD IEUENCTID CYMRU, Y PWYLLGOR ADDYSG A'R CWRICWLWM

Tachwedd 2023

WELSH YOUTH PARLIAMENT
SENEDD IEUENCTID CYMRU

# AELODAU'R PWYLLGOR

AMIR ALENEZI
SULTAN AWOLUMATE
EWAN BODILLY
BOWEN COLE
RUBY CRADLE
JAKE DILLON
DANIEL DOWNTON
IAGO LLŶN EVANS
BARTOSZ PAWEL FIRMANTY
FIONA GARBUTT
FFRED HAYES
YAHYA HUSSAIN
IESTYN JONES
POPPY JONES
ELLA KENNY
HANNA MAHAMED
LEAOLA ROBERTS-BIGGS
RHYS ROWLANDSON
QAHIRA SHAH
FINN SINCLAIR
ROSEMARY SQUIRES
LLOYD WARBURTON
FREDDIE WEBBER
FFION WILLIAMS

WELSH YOUTH PARLIAMENT
SENEDD IEUENCTID CYMRU



## CYNNWYS

**Cyflwyniad ..... 5**
**Defnydd o'r amser ychwanegol yn y diwrnod ysgol ..... 11**
Casgliadau ..... 13
Rydym yn galw am y canlynol ..... 14
**Effaith ..... 17**
Casgliadau ..... 20
Rydym yn galw am y canlynol ..... 22
**Crynodeb ac argymhellion ..... 25**
Argymhellion ..... 27

# CYFLWYNIAD

*Rydym yn grŵp o 24 o aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru sydd wedi dod ynghyd i ffurfio'r Pwyllgor Addysg a'r Cwricwlwm Ysgol. Wrth i ni agosáu at ddiwedd cyfnod ail Senedd Ieuenctid Cymru, rydym yn falch o roi i chi Adroddiad ein Pwyllgor. Hwn yw trydydd adroddiad Senedd Ieuenctid Cymru, a'r adroddiad olaf yng nghyfnod y Senedd Ieuenctid hon.*

Pan gyfarfûm gyntaf fel Pwyllgor, buom yn trafod beth ddylai ein gwaith ganolbwyntio arno. Mae'r addysg y mae pobl ifanc yn ei chael yn yr ysgol yn bwysicach nawr nag erioed, yn enwedig o ystyried yr heriau a wynebwyd yn ystod, ac wrth ddod allan o'r cyfyngiadau symud a oedd yn cydfynd â'r pandemig, gyda rhagor o ddysgwyr yn cael trafferthion gyda'u hiechyd meddwl a bod yn bresennol yn yr ysgol.

> *'Mae addysg yn rhywbeth y mae ar bob person ifanc ei angen, mae'n siapio bywyd person ifanc ac yn un o'r dylanwadau mwyaf ar fywyd person ifanc.'*
> *(Bartosz Pawel Firmaty, aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Wrecsam)*

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad pobl ifanc, ond roeddem yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i edrych yn fanwl ar ei effaith a'i effeithiolrwydd ar hyn o bryd. Yn lle hynny, fe wnaethom benderfynu canolbwyntio ar yr opsiynau a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu dysgwyr i adfer y cyfleoedd cymdeithasol, y cyfleoedd academaidd a'r mwynderau llesiant y gwnaethant eu colli o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Yn benodol, edrychwn yn fanwl ar a allai ailystyried hyd y diwrnod ysgol helpu i wella llesiant a hyder pobl ifanc; ar y cymorth a ddarperir i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig (er enghraifft, o ardaloedd tlotach) i gyflawni yn eu man dysgu; ac ar sgiliau cymdeithasol a phersonol pobl ifanc.





Yn ei Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych yn fanwl ar opsiynau i ddiwygio trefn y diwrnod ysgol i greu gofod ar gyfer gweithgareddau a chyfleoedd mwy eang a hygyrch yn ddiwylliannol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22, cynhaliodd Llywodraeth Cymru dreialon ar gyfer 'Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol' mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac mewn sefydliadau addysg bellach. Roedd y treialon hyn yn cynnwys ychwanegu pump awr at yr wythnos ysgol am gyfnod o ddeg wythnos. Yn y mwyafrif o achosion, roedd hyn yn arwain at ychwanegu awr yn syth ar ddiwedd pob dydd, er, mewn rhai lleoliadau dysgu roedd y pump awr wedi'u gwasgaru dros gyfnodau hirach ar dri neu bedwar diwrnod yr wythnos. Defnyddiwyd y 'Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol' i ddarparu gweithgareddau antur awyr agored, gweithgareddau corfforol, sesiynau i wella llesiant, a phrofiadau eraill na fyddai rhai pobl ifanc wedi gallu cael mynediad atynt yn yr ysgol o'r blaen efallai. Mae'r treialon hyn wedi cael eu gwerthuso gyda phawb a gymerodd ran. Un o'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwerthusiad yw parhau i ddarparu'r 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' hyn yn yr hirdymor. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Gorffennaf 2023 fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y canfyddiadau o ran eu polisïau addysg a'u diwygiadau ehangach.

Roedd ein hymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddeall sut yr oedd pobl ifanc o bob rhan o Gymru'n teimlo am y syniad, ac a oeddent yn teimlo y gallai fod ffyrdd eraill o gyflawni'r un canlyniadau.

> *'Byddai ymestyn hyd y diwrnod ysgol yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl ifanc, ac mae'n hollbwysig bod eu barn hwy'n cael ei hystyried cyn gwneud unrhyw newidiadau.'*
> *(Finn Sinclair, aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Preseli Sir Benfro)*


> *'Y bobl ifanc eu hunain fydd yn profi'r newidiadau, felly mae'n holl bwysig bod eu barn yn cael ei hystyried.'*
> *(Lloyd Warbuton, aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Ceredigion)*

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi ymgysylltu â thros 1,500 o bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg, a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws, neu a ymgysylltodd â ni mewn digwyddiadau fel Pride yn Ysgolion Sir y Fflint a Gŵyl y Gofalwyr Ifanc. Roedd 260 o oedolion, a oedd yn cynnwys amrywiol weithwyr addysg proffesiynol, rhieni a gwarcheidwaid a gwblhaodd ein harolwg hefyd yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Clywsom gan bobl ifanc o bob ardal awdurdod lleol, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, pobl ifanc ag anableddau, a rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol. Roedd mwyafrif y bobl ifanc y gwnaethom ymgysylltu â nhw (82%) rhwng 11 ac 16 mlwydd oed, a nododd 46% fod yr ardal yr oeddent yn byw ynddi yn wledig iawn neu'n eithaf gwledig. Mae’r canfyddiadau yn ein hadroddiad yn adlewyrchu barn pobl a ymatebodd o’u gwirfodd ac a ddewisodd gymryd rhan yn yr arolwg. Maent hefyd yn adlewyrchu barn pobl a wahoddwyd i gymryd rhan yn ein grwpiau ffocws ac yn ein digwyddiadau, ac efallai nad ydynt yn cynrychioli barn poblogaeth Cymru yn uniongyrchol.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o’u hamser i gyfrannu at ein gwaith.





**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

# DEFNYDD O'R AMSER YCHWANEGOL



# DEFNYDD O'R AMSER YCHWANEGOL YN Y DIWRNOD YSGOL

Nid oedd mwyafrif y bobl ifanc a'r oedolion a oedd yn destun yr arolwg yn cytuno â'r syniad o ymestyn hyd y diwrnod ysgol. O'r bobl ifanc hynny a oedd yn cefnogi'r syniad, teimlai 54% y dylai gynyddu o lai na 5 awr yr wythnos, tra bod 39% yn teimlo mai 5 awr oedd y swm cywir o oriau ychwanegol. O blith yr oedolion yn yr arolwg a oedd yn cytuno â chynyddu'r oriau, teimlai 63% fod cynnydd o 5 awr yn hollol gywir, ac roedd 28% yn meddwl y dylai'r cynnydd fod yn llai na 5 awr.

Roedd cefnogaeth gref iawn i sicrhau bod 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' am ddim yn y pwynt mynediad, gyda 89% o bobl ifanc ac 83% o oedolion yn mynegi'r farn hon. Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r bobl ifanc a'r oedolion y buom yn ymgysylltu â nhw na ddylai cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn fod yn orfodol.

> *'Os ydych chi'n ei orfodi, bydd pobl eisiau gwrthryfela. Os ydych chi'n creu amgylchedd ble mae gweithgaredd mor fuddiol fel bod pobl eisiau cymryd rhan ynddi, yna mae hynny'n llawer gwell, ac mae pobl ifanc eisiau teimlo bod ganddyn nhw ddewisiadau.' (Person ifanc)*

> *'Mae gan bobl bethau i'w gwneud ar ôl yr ysgol, a hefyd os ydych chi'n ychwanegu gweithgareddau gorfodol mae rhagor o siawns y bydd rhywun yn gor-wneud pethau.' (Person ifanc)*

Pe bai pump awr yn cael eu hychwanegu at yr wythnos ysgol, yn ôl canlyniadau ein harolwg byddai pobl ifanc ac oedolion am weld amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu darparu. Yr ymateb mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd ar gyfer chwaraeon awyr agored neu weithgarwch corfforol, ble'r oedd 51% o bobl ifanc a 63% o oedolion yn dewis yr opsiwn hwn. Roedd celf a chrefft (gan gynnwys drama a cherddoriaeth), a choginio a maetheg hefyd yn ddewisiadau poblogaidd iawn. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ymylol ar gyfer defnyddio'r amser hwn ar gyfer gwersi ychwanegol i helpu gyda gwaith ysgol (17% o bobl ifanc ac 13% o oedolion), ond roedd y rhan fwyaf yn teimlo y dylai'r amser hwn ganolbwyntio mwy ar 'sgiliau bywyd' (fel gweithgareddau corfforol, addysg rhyw a pherthnasoedd, llythrennedd ariannol, ac iechyd meddwl a llesiant).



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

Y dewis gorau gan bobl ifanc ac oedolion oedd fod yr amser yn cael ei ychwanegu naill ai ar ôl i wersi orffen yn y prynhawn (34% o bobl ifanc, a 44% o oedolion), neu ei ychwanegu fel cymysgedd drwy gydol yr wythnos (39% o bobl ifanc, a 39% o oedolion). Ychydig iawn o gefnogaeth oedd i'r amser hwn gael ei ychwanegu cyn dechrau'r diwrnod ysgol presennol, nac yn ystod amser cinio (gan ganiatáu amser i fwyta cinio wrth gwrs).

Mynegodd pobl ifanc ac oedolion bryder y byddai cyflwyno'r oriau ychwanegol hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i fynychu gweithgareddau fel clybiau chwaraeon neu wersi cerddoriaeth y tu allan i fannau dysgu, gyda 57% o bobl ifanc, a 47% o oedolion yn meddwl y byddai hyn yn heriol.

Roedd rhai o'r bobl ifanc yn cwestiynu sut y byddai pob person ifanc yn gallu fforddio'r amser ar gyfer y cyfleoedd hyn, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac fe wnaethant awgrymu y dylai mannau dysgu geisio darparu cyfleoedd a gweithgareddau o'r fath yn ystod yr amser y mae pobl ifanc yn cael eu haddysg ar hyn o bryd.

> *'Mae gan rai pobl bethau i'w gwneud gartref fel gofalu am anwyliaid, gwaith cartref, pethau allgyrsiol.' (Person ifanc)*

> *'Beth os oes gennych chi gyfrifoldebau gartref? Bydd yr oriau ychwanegol yn gwneud dim ond cynyddu lefelau straen mewn pobl ifanc.' (Person ifanc)*

> *'Mae gan rai pobl lawer o weithgareddau y tu allan i'r ysgol, a phe byddent yn cael eu gorfodi i wneud y gweithgareddau yn yr ysgol, efallai y byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i wneud gweithgareddau y tu allan i'r ysgol y maent yn eu mwynhau'n fawr.' (Person ifanc)*

> *'Mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu (i raddau) llawer o'r gweithgareddau a awgrymwyd, drwy glybiau gwirfoddol.' (Person ifanc)*

> *'Dylai hyn gael ei wneud yn ystod y diwrnod ysgol fel y mae. Mi fuasai ymestyn y diwrnod ysgol yn gallu achosi mwy o broblemau lles a mwy o blant blinedig.' (Person ifanc)*

Teimlai rhai pobl ifanc y byddai ymestyn yr amser yr oedd angen iddynt fod yn y man dysgu yn lleihau'r amser a oedd ar gael iddynt wneud eu gwaith cartref, ac o ganlyniad yn achosi rhagor o straen iddynt.

*'Mae swm y gwaith cartref a osodir yn yr ysgol uwchradd yn sylweddol iawn ac felly byddai cymryd pump awr yr wythnos i ffwrdd o'r amser sydd ar gael i'w gyflawni yn effeithio ar lefelau straen myfyrwyr, ac ar eu hiechyd meddwl.' (Person ifanc)*

## CASGLIADAU

Mae'n hynod bwysig bod cymorth yn cael ei roi i bobl ifanc gyflawni eu potensial, ac yn ddi-os mae'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd llawer o bobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rydym yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am edrych yn fanwl ar ffyrdd a all helpu'r rhai yr effeithir arnynt i wneud iawn am y cyfleoedd a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig plant a phobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig. Mae'n amlwg i ni, fodd bynnag, fod cryn amheuaeth ynghylch y syniad o gynyddu hyd y diwrnod ysgol, ac mae hwn yn bwynt y byddwn yn rhoi sylw iddo yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Yn sgil y treialon 'Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol' a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, bu pobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau fel chwaraeon, celf a chrefft, a choginio. O'r trafodaethau rydym wedi'u cael gyda phobl ifanc yn ein hysgolion, ein colegau, ein grwpiau ieuenctid, yn y digwyddiadau grwpiau ffocws y mae ein Pwyllgor wedi'u cynnal, ac o'r ymatebion i'r arolwg hwn, un neges gyson rydym wedi'i chlywed yn amlwg a chlir yw bod pobl ifanc eisiau darpariaeth gyson ac effeithiol o'r mathau hyn o weithgareddau a gweithgareddau sgiliau bywyd eraill.

Credwn fod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi cyfle i gyflawni rhai o'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r treialon hyn, ac mai'r flaenoriaeth yn y tymor byr i'r tymor canolig ddylai fod i wreiddio hyn yn effeithiol, gan gynnwys darparu'r math o weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' yn ystod yr amser y maent yn ei dreulio yn yr ysgol ar hyn o bryd heb fod angen cynyddu nifer yr oriau. Er nad ydym yn cefnogi cyflwyno'r oriau ychwanegol hyn, pe bai hyd yr wythnos ysgol yn cynyddu, ni ddylai cyfranogiad fod yn orfodol i bobl ifanc.

*'Rwy'n meddwl bod materion llawer mwy blaenllaw yn ymwneud â'r Cwricwlwm y mae angen delio â nhw cyn ychwanegu oriau at y diwrnod ysgol.' (Person ifanc)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

*'Mae angen ail-lunio o ran addysg uwchradd, i fod yn debycach i CA2, i wella hyder, gwytnwch a lles, gyda llai o ffocws ar baratoi ar gyfer arholiadau a rhagor o ffocws ar yr awyr agored, chwaraeon a'r pynciau creadigol, drwy ddull gweithredu ysgol gyfan o ran iechyd, llesiant, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Felly, dylai'r rhain fod ar gael drwy gydol y dydd drwy addysgu trawsgwricwlaidd, yn enwedig yn CA3, gan ddod yn fwy arbenigol yn CA4, ac NID drwy gyflwyno oriau ychwanegol.' (Oedolyn)*

*'Byddwn yn argymell archwilio ffyrdd o wneud yr amser presennol yn fwy effeithiol. Fel athro profiadol mae'n amlwg nad yw'r model addysg presennol yn gweddu'n dda i bawb.' (Oedolyn)*

Rydym yn cytuno â'r rhai a ymatebodd i'n harolwg a oedd yn cefnogi, gyda mwyafrif llethol, yr alwad am i'r gweithgareddau hyn fod am ddim ar y pwynt mynediad. Dylai pobl ifanc fod wrth wraidd penderfyniadau o ran y math o weithgareddau a ddarperir a sut y cânt eu darparu.

*'Dylai fod elfen i'r plant ddewis beth yw'r gweithgareddau, a dylai hyn fod yn seiliedig ar yr hyn y maent am ei wneud yn hytrach na'u grwpio i'r hyn y dylen nhw ei hoffi.' (Oedolyn)*

### RYDYM YN GALW AM Y CANLYNOL

- Darparu gweithgarwch corfforol, gweithgareddau antur awyr agored, celf a chrefft, coginio a maetheg, a sgiliau bywyd eraill yn gyson ac effeithiol drwy'r Cwricwlwm newydd i Gymru, wedi'i ddarparu o fewn yr oriau ysgol presennol.
- Dylai pobl ifanc fod wrth wraidd penderfyniadau o ran pa weithgareddau a ddarperir, a dylent fod am ddim yn y pwynt mynediad.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r angen i gynyddu oriau ysgol ar ôl rhoi digon o amser i leoedd dysgu geisio darparu'r mathau hyn o weithgareddau o fewn y diwrnod ysgol presennol.

**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

# EFFAITH



# EFFAITH

Yn ein harolwg, gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau er mwyn deall teimladau'r rhai a fyddai'n cyflwyno'r 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' hyn mewn mannau dysgu, a hynny yn ystod cyfnodau estynedig o'r wythnos.

Dywedodd y rhai a gymerodd ran y byddent yn elwa o dreulio rhagor o amser yn cymdeithasu â ffrindiau wyneb yn wyneb (44% o bobl ifanc, a 48% o oedolion). Teimlai cyfran fawr o oedolion (63%) y byddai cyflwyno'r newidiadau hyn yn rhoi mynediad i bobl ifanc at weithgareddau na fyddent fel arfer yn gallu cymryd rhan ynddynt oherwydd ffactorau fel cost, neu bellter teithio. Roedd pobl ifanc a oedd yn ymateb i'n harolwg yn llai sicr am hyn, fodd bynnag, gyda 39% yn cytuno, a 40% yn anghytuno â'r farn honno.

Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr (40% o bobl ifanc, a 57% o oedolion) y byddai grwpiau difreintiedig o bobl ifanc a rhai o gefndiroedd tlotach yn elwa'n sylweddol o gymryd rhan yn y mathau o sesiynau sy'n rhan o'r 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol', fel gweithgareddau antur awyr agored, gweithgareddau corfforol, a sesiynau i wella llesiant.

> *'Gyda'r oriau newydd hyn yn y diwrnod ysgol, byddent yn gallu mwynhau'r un breintiau â'u cyfoedion, heb orfod poeni am y gost.' (Person ifanc)*

> *'Byddai'n helpu i sicrhau chwarae teg i bawb o ran cyfleoedd. A rhowch gyfle i'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig gymryd rhan.' (Oedolyn)*

> *'Os yw'r amser ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau o ansawdd arbennig o dda, yna ydw, rwy'n cytuno. Mae fy mhlant wedi colli allan ar lawer yn ystod Covid-19 a byddai hyn yn ffordd i'w helpu i wneud iawn am amser dysgu a gollwyd, i fagu hyder a sgiliau cymdeithasol ac i ddatblygu gwytnwch.' (Oedolyn)*

Nid oedd 57% o bobl ifanc a 55% o oedolion y buom yn ymgysylltu â nhw yn meddwl, fodd bynnag, y byddai gweithredu'r newidiadau hyn yn gwella perfformiad a phresenoldeb yn yr ysgol, a chodwyd pryderon ynghylch iechyd meddwl a llesiant dysgwyr. Dywedodd 61% o bobl ifanc wrthym na fyddai'r amser ychwanegol yn gwella eu hiechyd meddwl a'u llesiant, ac nid oedd 46% yn meddwl y byddai'n gwella eu hyder. Mynegodd rhai pobl ifanc fod angen gadael





tir yr ysgol, oherwydd i rai, byddai treulio amser ychwanegol yn yr amgylchedd hwnnw'n niweidiol i'w hiechyd meddwl a'u llesiant.

> *'Mae'n braf dianc o awyrgylch yr ysgol gan y gall fod yn straen mawr i lawer o bobl.' (Person ifanc)*

> *'Mae rhai plant yn wir yn cael trafferthion gyda bod yn yr ysgol am wahanol resymau, gan gynnwys bwlio, ac maent yn methu aros nes y gallant fynd oddi yno.' (Oedolyn)*

> *'Oherwydd efallai bod gan bobl weithgareddau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer amser y tu allan i oriau ysgol a bod angen yr amser segur hwnnw i ffwrdd o amgylchedd yr ysgol.' (Person ifanc)*

Cododd llawer bryderon am allu pobl ifanc i ymgysylltu am ragor o amser nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd o fewn diwrnod ysgol. Roedd mwyafrif y rhai y buom yn ymgysylltu â nhw yn bobl ifanc o oedran ysgol uwchradd, a soniasant fod angen cadw cymaint o'r wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo mewn gwersi presennol, a nodwyd straen arholiadau hefyd fel ffactor arwyddocaol, ac y gallai ychwanegu at hyd y diwrnod ysgol arwain at or-wneud pethau a blinder.

> *'Mae 5 awr o ddysgu bob dydd eisoes yn llawer i'w ofyn ganddyn nhw. Mae pethau eisoes yn brysur ac yn symud yn gyflym mewn ysgolion, ac rydym yn gofyn i fyfyrwyr fynd yn chwim o un pwnc i'r llall. Ni fyddai ychwanegu at eu diwrnod yn eu helpu i ddysgu. Byddai'n achosi gor-wneud pethau a rhagor o ymddieithrio. Fel athrawes rwyf eisoes yn gweld y gwahaniaeth o ran ymddygiad/agwedd a chadw gwybodaeth rhwng gwersi boreol a gwersi ar ddiwedd y dydd.' (Oedolyn)*

> *'Mae'n braf ymlacio ar ôl diwrnod hir yn yr ysgol oherwydd mae'n flinedig ... dwi'n teimlo y byddai ychwanegu 5 awr ychwanegol at yr wythnos ysgol yn fy ngwneud i'n flinedig iawn.' (Person ifanc)*

> *'Ar ôl cael profiad o weithio gyda theuluoedd o gefndiroedd difreintiedig, dydw i ddim yn meddwl mai diwrnod ysgol hirach yw'r ateb i'w cefnogi. Mae angen amser ar blant i orffwys a dilyn eu diddordebau ar eu cyflymder eu hunain.' (Oedolyn)*

> *'Mae plant niwroamrywiol yn cael digon o drafferth i fynd drwy ddiwrnod ysgol heb gael eu gorfodi i wneud hyn am amser hwy. Rwy'n anghytuno'n gryf â'r cynnig hwn am y rheswm hwn.' (Oedolyn)*

*'Mae angen ymgynghori'n iawn â grwpiau anabledd ac ADY cyn ystyried ymestyn y diwrnod ysgol.' (Oedolyn)*

Awgrymodd ymatebwyr y gallai nifer o ganlyniadau anfwriadol fod o ganlyniad i ymestyn y diwrnod ysgol er mwyn cynnwys y gweithgareddau hyn. Dywedodd rhai wrthym y byddai rhagor o bwysau ar weithgareddau presennol a ddarperir gan fannau dysgu y tu allan i amser ysgol penodedig, tra bod eraill wedi mynegi pryderon ynghylch sut y gallai effeithio'n negyddol ar bresenoldeb mewn clybiau ar ôl ysgol eraill.

*'Fel rhywun sy'n dibynnu ar weld disgyblion ar ôl ysgol ar gyfer ymarferion Drama TGAU a Safon Uwch yn ogystal ag ymarferion at sioeau cerdd ysgol gyfan (gyda chast o hyd at 200 o ddisgyblion) rwy'n llai tebygol o gael disgyblion i ymarfer o 16:30 tan 18:30 nag ydw i o 15:30 tan 17:30. Gallai hyn ddifetha cynnyrch artistig ysgol os oes yn rhaid i ddisgyblion gofrestru ar gyfer rhai gweithgareddau penodol.' (Oedolyn)*

*'Bydd rhai plant a phobl ifanc yn rhan o glybiau / grwpiau y mae rhieni'n talu amdanynt - byddai'n anfantais i'r grwpiau hynny.' (Oedolyn)*

*'Cau darparwyr gofal plant eraill oherwydd y gystadleuaeth, a bod hwnnw am ddim.' (Oedolyn)*

Ar draws y categorïau eraill y buom yn holi yn eu cylch, fel yr effaith ar iechyd corfforol pobl ifanc, a'u sgiliau rhifedd a llythrennedd, nid oedd ymatebion pobl ifanc ac oedolion yn adlewyrchu barn gref o blaid nac yn erbyn yr oriau ychwanegol.

Mynegodd pobl ifanc yn ein harolwg ffafriaeth (41%) i 'Weithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' gael eu cyflwyno gan gyfuniad o staff mewn mannau dysgu, darparwyr allanol a gweithwyr ieuenctid. Roedd yr oedolion a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo yr un fath.

Cododd llawer o'r rhai y buom yn ymgysylltu â nhw gwestiynau ynghylch sut y byddai darparu'r gweithgareddau hyn yn ystod oriau ychwanegol yn bosibl yn ariannol, o ystyried y pwysau sydd eisoes yn wynebu lleoedd dysgu ac addysg eisoes.

*'Does gan ysgolion ddim arian i wneud pethau allgyrsiol, felly mae angen i chi roi rhagor o arian iddyn nhw.' (Person ifanc)*





*'Ni allwch hyd yn oed roi digon o adnoddau i'ch ystafelloedd dosbarth fel y gall addysgu a dysgu effeithiol ddigwydd. Rydych chi'n blino eich aelodau staff yn lân a byddaf yn dewis gadael y proffesiwn addysgu os cyflwynir gweithgaredd arall.' (Oedolyn)*

*'Mae trafnidiaeth ysgol eisoes yn loteri, pwy fydd yn talu am wasanaethau ychwanegol?' (Oedolyn)*

Pryder logistaidd arall a godwyd gyda ni oedd sut y byddai diwrnod ysgol hirach yn effeithio ar deithio pobl ifanc o'u man dysgu, a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar eu rhieni neu warcheidwaid.

*'Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd mynd i'r ysgol ac oddi yno oherwydd ymrwymiadau gwaith rhieni, amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus ac ati.' (Person ifanc)*

*'Byddai cydbwyso amseroedd casglu plant lluosog ag anghenion / gweithgareddau gwahanol yn peri problem.' (Oedolyn)*

*'Ni fydd pobl o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cymryd rhan oherwydd diffyg trafnidiaeth adref wedyn yn sgil costau tanwydd uchel, gwasanaethau bws gwael ac ati.' (Person ifanc)*

## CASGLIADAU

Fel y daethom i'r casgliad yn yr adran flaenorol, rydym yn llwyr gefnogi'r angen i ddarparu 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol', a sgiliau bywyd eraill i helpu pobl ifanc gyflawni eu potensial a'u paratoi ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cytuno â'r rhai a ymatebodd i'n harolwg y byddai hyn yn helpu rhagor o bobl ifanc ddifreintiedig, a hoffem weld y mathau hyn o weithgareddau'n cael eu cyflwyno'n gyson, i roi mynediad i bobl ifanc o bob cefndir at weithgareddau unigryw, waeth beth fo'u sefyllfa ariannol.

Rydym ninnau yr un mor bryderus â'r bobl ifanc y buom yn ymgysylltu â nhw, ynghylch sut y gallai cynyddu'r amser y maent yn ei dreulio mewn mannau dysgu effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gwyddom fod gwahanol bobl ifanc yn cael profiadau gwahanol iawn yn yr ysgol, ac i rai byddai treulio rhagor o amser yno yn cael effaith groes i'r amcan – ac yn achosi straen a phryder ychwanegol i bobl ifanc, oherwydd eu bod yn treulio rhagor o amser, er enghraifft, yn yr un lle â bwlis. Byddai ganddynt lai o amser i wneud eu gwaith cartref, llai o gyfle i ymlacio

gyda'u teuluoedd ac i ddadflino o amgylchedd yr ysgol. Mae llawer o bobl ifanc yn cysylltu'r ysgol â dysgu yn unig, nid ag ymlacio a hwyl. Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn cwestiynu a oes gan bobl ifanc y gallu i ganolbwyntio a'r egni i ymgysylltu'n llawn am 5 awr ychwanegol yr wythnos, a gallai hyn gael effaith fwy byth ar bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddem yn pryderu y gallai hyn arwain at lefel is fyth o bresenoldeb a pherfformiad yn yr ysgol.

> *'I rai pobl, mae'r ysgol yn lle negyddol, felly nid yw eu gorfodi i aros yno'n hirach i 'helpu eu hiechyd a'u lles' yn gwneud synnwyr.' (Person ifanc)*

Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol iawn o faint o bwysau sydd eisoes ar ein hathrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill, a pha mor anodd yw'r sefyllfa ariannol i sefydliadau addysg. Rydym yn rhannu'r ofnau a godwyd, y bydd cyflwyno oriau ychwanegol i'r diwrnod yn rhoi pwysau ariannol pellach ar ysgolion a mannau dysgu eraill, ac yn ychwanegu hyd yn oed yn fwy at lwyth gwaith addysgwyr, sydd eisoes o dan bwysau.

> *'Dargyfeirio cyllid oddi wrth ysgolion, llwyth gwaith penaethiaid a staff, difrod i adeiladau ysgol, materion disgyblu, rhagor o bwysau o ran cadw staff.' (Oedolyn)*

> *'Sicrhewch fod gan ysgolion yr arian i wneud y gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol. Fe gollon ni athro drama gwych a roddodd sylw i sesiynau Cynllunio, Paratoi ac Asesu, a hynny oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Weithiau ni allaf wneud rhai gweithgareddau oherwydd nad oes gennym yr adnoddau.' (Oedolyn)*

Fel y soniasom o'r blaen, nid ydym yn cytuno â'r cynnig i ymestyn hyd y diwrnod ysgol. Byddai angen mynd i'r afael â nifer o faterion eraill cyn y gallwn ddeall yn llawn a yw'n ymarferol. Er enghraifft, cyllid, newidiadau i gludiant o fannau dysgu, a sut y byddai'n effeithio ar glybiau a gweithgareddau presennol a gaiff eu cynnal y tu allan i oriau ysgol.

Er yn cytuno â'r syniad o ddarparu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig, nid ydym yn teimlo mai ymestyn hyd y diwrnod ysgol yw'r ffordd i'w gyflwyno, gan y dylai hyn fod yn bosibl o fewn oriau penodedig presennol yr ysgol.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

## RYDYM YN GALW AM Y CANLYNOL

- Dylai unrhyw dreialon yn y dyfodol geisio ymdrin â rhwystrau fel cludiant o'r ysgol, cost darparu, ac effaith ar allu a llesiant gweithwyr addysg proffesiynol.
- Mae angen rhagor o waith ymchwil i ddeall i ba raddau y gall pobl ifanc i gymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau yn ystod oriau ychwanegol, a deall a ddylai'r ddarpariaeth fod yn unffurf ar draws grwpiau oedran, a'r budd a ddaw yn sgil hyn. Dylid rhoi sylw arbennig i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FY NIWRNOD YSGOL*

# CRYNODEB AC ARGYMHELLION



# CRYNODEB AC ARGYMHELLION

Fel Pwyllgor, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod gwella lles a hyder pobl ifanc, eu sgiliau cymdeithasol a phersonol, a gwella'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn flaenoriaeth fawr, yn enwedig i wrthweithio'r problemau y mae pobl ifanc wedi'u profi oherwydd y pandemig.

Nid oedd y bobl ifanc yn yr arolwg yn argyhoeddedig mai ymestyn hyd y diwrnod ysgol i gynnwys y 'Gweithgareddau Cyfoethogi Ychwanegol' hyn yw'r ffordd orau i gyflawni hyn. Roedd 69% yn meddwl bod cynyddu faint o amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio yn eu man dysgu 5 awr yr wythnos yn syniad gwael. Teimlai 58% o bobl ifanc ar y cyfan y byddai ychwanegu 5 awr at yr wythnos ysgol yn cael effaith negyddol arnynt, a theimlai mwyafrif yr oedolion a ymatebodd i'n harolwg (45%) y byddai'n niweidiol iddynt hwy fel rhieni, gwarcheidwaid neu weithwyr addysg proffesiynol.

> *'Nid wyf yn credu bod 5 awr ychwanegol o amser ysgol yr wythnos yn syniad da. Nid yn unig y mae'n rhoi llai o amser i fyfyrwyr gyda'u teuluoedd, ond mae hefyd yn cyfyngu ar weithgareddau allgyrsiol allanol, ac yn golygu y bydd athrawon yn mynd adref at eu teuluoedd yn hwyrach yn y dydd, ac yn gweld llai arnynt. I'r rhai nad ydynt yn hoffi'r ysgol, byddai ond yn gwaethygu eu hiechyd meddwl, ac yn trechu'r amcan felly.' (Person ifanc)*

> *'Nifer o blant yn gwneud digon beth bynnag – nid trin pawb yr un fath yw'r ateb bob tro.' (Oedolyn)*

Rydym yn cytuno â hwy, ac mae gennym bryderon sylweddol y gallai gweithredu'r newidiadau hyn arwain at ganlyniadau sydd i'r gwrthwyneb i'r hyn a obeithiwyd, nid yn unig ar ddysgwyr ifanc, ond hefyd ar staff ysgolion. Roedd pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd yn teimlo bod ffyrdd eraill o gyflawni'r nodau hyn, drwy flaenoriaethu adnoddau i ganiatáu ar gyfer dosbarthiadau llai, gwella'r cymorth sydd ar gael mewn mannau dysgu, a mynediad gwell at wasanaethau arbenigol i gynorthwyo pobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae rhai o'n cyfeillion ar y Pwyllgor Iechyd Meddwl a Llesiant hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar hyn, ac yn eu hadroddiad Meddyliau iau o Bwys amlinellwyd amrywiaeth o argymhellion i wella'r cymorth y mae pobl ifanc yn ei gael yn eu man dysgu.

> *'Gwella gwasanaethau iechyd meddwl, fel cwnselwyr a mynediad atynt.' (Person ifanc)*

> *'Rwy'n meddwl mai'r ateb i les plant a chefnogaeth i deuluoedd difreintiedig fyddai ariannu ysgolion a gofal cymdeithasol yn iawn, yn hytrach na rhoi baich ychwanegol ar ysgolion a fydd yn blastr ar y briw eto.' (Oedolyn)*

> *'Rwy'n meddwl y dylid darparu neu wella gwasanaethau llesiant mewn ysgolion, fel cwnsela a mannau diogel, i roi sylw i faterion personol. Dylid neilltuo gwersi yn ein hamserlenni ar gyfer gwersi llesiant, lle rydym yn dysgu sgiliau bywyd pwysig a gwersi fel addysg rhyw, cyllid ac ati.' (Person ifanc)*

Rydym am weld y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cyflwyno'r gweithgareddau hyn o fewn yr amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio yn yr ysgol ar hyn o bryd, gan y cytunwn y dylai cymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwaraeon, gweithgareddau corfforol, gweithgareddau antur awyr agored, y celfyddydau a cherddoriaeth, coginio a maetheg, ac eraill fod yn rhan fawr o'n profiad dysgu yn yr ysgol.

Mae cost yn rhwystr enfawr i gael mynediad at y mathau hyn o weithgareddau a theithiau, fel y mae pethau ar hyn o bryd. Rydym yn cefnogi'r alwad gan Bwyllgor Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru yn ei adroddiad diweddar am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc. Gwyddom o'n profiad ein hunain fod rhai o'r cyfleoedd a ddarperir i bobl ifanc yn eu mannau dysgu wedi rhoi pwysau ariannol sylweddol ar deuluoedd, sy'n arwain yn anochel at y bobl ifanc hynny o deuluoedd incwm is yn colli cyfleoedd i ymuno mewn gweithgareddau o'r fath.

Mae'n bwysig cydnabod bod amser i ffwrdd o amgylchedd yr ysgol yn bwysig i bobl ifanc, a bod budd yn deillio i bobl ifanc o gymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau y tu allan i'r lleoliad hwnnw. Mae grwpiau a sefydliadau ieuenctid yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r mathau hyn o weithgareddau, ac mae angen eu cefnogi'n effeithiol i ddarparu cymorth yn y gymuned, profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc.

> *'Byddai gwell mynediad at wasanaethau yn y gymuned yn well buddsoddiad e.e. Gweithdai i roi sgiliau ychwanegol i rieni, gweithdai cefnogi rhieni, pyllau nofio, clybiau ieuenctid, rhaglenni beicio a chanllawiau ar faethlondeb a bwyd.' (Oedolyn)*

*'Gwasanaethau ieuenctid, ariannu grwpiau ieuenctid, galluogi grwpiau ieuenctid presennol (grwpiau theatr a thimau chwaraeon) i wneud ceisiadau am leoedd wedi'u hariannu ar gyfer y disgyblion hynny sydd fwyaf difreintiedig.' (Oedolyn)*

*'Buddsoddwch mewn gwasanaethau ieuenctid, ehangwch a /neu ailagorwch glybiau ieuenctid statudol presennol. Nid yn unig y byddai hyn yn llawer rhatach na thalu i gadw pawb yn yr ysgol am ragor o amser, ond mae gweithwyr Clybiau Ieuenctid mewn sefyllfa well i gynnig gwasanaethau y bydd pobl ifanc eisiau cymryd rhan ynddynt, a fyddai'n well na rhoi pwysau ychwanegol ar staff ysgolion.' (Oedolyn)*

## ARGYMHELLION

- Darparu gweithgarwch corfforol, gweithgareddau antur awyr agored, celf a chrefft, coginio a maetheg, a sgiliau bywyd eraill yn gyson ac effeithiol drwy'r Cwricwlwm newydd i Gymru, wedi'i ddarparu o fewn yr oriau ysgol presennol.
- Dylai pobl ifanc fod wrth wraidd penderfyniadau o ran pa weithgareddau a ddarperir, a dylent fod am ddim yn y pwynt mynediad.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r angen i gynyddu oriau ysgol ar ôl rhoi digon o amser i leoedd dysgu geisio darparu'r mathau hyn o weithgareddau o fewn y diwrnod ysgol presennol.
- Dylai unrhyw dreialon yn y dyfodol geisio ymdrin â rhwystrau fel cludiant o'r ysgol, cost darparu, ac effaith ar allu a llesiant gweithwyr addysg proffesiynol.
- Mae angen rhagor o waith ymchwil i ddeall i ba raddau y gall pobl ifanc gymryd rhan yn y mathau hyn o weithgareddau yn ystod oriau ychwanegol, i ddeall a ddylai'r ddarpariaeth fod yn unffurf ar draws grwpiau oedran, a pha fudd a ddaw yn ei sgil. Dylid canolbwyntio'n arbennig ar bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Dylid darparu'r adnoddau ar gyfer grwpiau a sefydliadau ieuenctid, i alluogi rhagor o ddarpariaeth o'r mathau hyn o weithgareddau i bobl ifanc mewn cymunedau ledled Cymru.



WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU